Tŷ Afon, Ffordd Bedwas
Bedwas, Caerffili,
CF83 8WT

029 2085 9696

Tŷ Afon, Bedwas Road
Bedwas, Caerphilly
CF83 8WT

www.hefcw.ac.uk

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

Cylchlythyr | Circular

# Ymgynghoriad ar gyllid i gefnogi cydraddoldeb hiliol mewn addysg uwch

| | | |
|---|---|---|
| **Dyddiad:** | 24 Mawrth 2022 | |
| **Cyfeirnod:** | W22/05HE | |
| **At:** | Benaethiaid sefydliadau addysg uwch yng Nghymru | |
| **Ymateb erbyn:** | Dydd Gwener 22 Ebrill 2022 | |
| **Cyswllt** | Enw: | Jane Johns |
| | Ffôn: | 029 2085 9732 |
| | E-bost: | jane.johns@hefcw.ac.uk<br>amanda.phillips@hefcw.ac.uk |

Dyma ymgynghoriad ar gynigion i ddyrannu cyllid ychwanegol o 2021/22 i gefnogi cydraddoldeb hiliol mewn addysg uwch.

Os oes angen y ddogfen hon arnoch mewn fformat hygyrch arall, anfonwch e-bost i info@hefcw.ac.uk.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg | We welcome correspondence in Welsh and in English
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg | This document is also available in English

## Cyflwyniad

1. Dyma ymgynghoriad ar gynigion i ddyrannu cyllid ychwanegol o 2021/22 i gefnogi cydraddoldeb hiliol mewn addysg uwch.

2. Yn llythyr cylch gwaith CCAUC 2021-22 gan Lywodraeth Cymru nodwyd y disgwyliad canlynol: *"Yn ystod y flwyddyn i ddod rwyf am weld pob un o'n sefydliadau'n dechrau'r broses o gyflawni Nod Siarter fel arwydd o'u hymrwymiad i ddileu hiliaeth ac anghydraddoldeb hiliol ar bob lefel o fewn y sector.*" (paragraffau 17-18). Byddwn hefyd yn ystyried ein llythyr cylch gwaith ar gyfer 2022-23 wrth bennu ein canllawiau cydraddoldeb hiliol yn derfynol.

*3.* Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar ddrafft ei chynllun gweithredu cydraddoldeb hiliol a fydd yn cynnwys camau ar gyfer addysg uwch mewn perthynas â'i staff a'i myfyrwyr. Cyflwynodd CCAUC ymateb i'r ymgynghoriad. Cafwyd 320 o ymatebion i'r ymgynghoriad a chomisiynwyd Race Equality First er mwyn helpu i ddadansoddi'r ymatebion. Deallwn y bydd fersiwn ddiwygiedig Cynllun Gwrth-hiliol Cymru yn cael ei chyhoeddi ym mis Mai. Mae'n debygol y bydd Llywodraeth Cymru'n disgwyl i'r sector barhau i adeiladu ar waith sy'n bodoli eisoes, o leiaf, gan gynnwys rhannu arfer drwy rwydweithiau a chyflawni'n unol â'i disgwyliadau o ran gweithio tuag at siarter cydraddoldeb hiliol. Byddwn yn ystyried cynllun gweithredu cydraddoldeb hiliol Llywodraeth Cymru wrth bennu ein canllawiau ein hunain yn derfynol.

4. Yn 2021/22 rhoesom grant i AU Ymlaen i gyflenwi'r rhaglen wella ar gyfer Hil, Mynediad a Llwyddiant. Mae adroddiad y rhaglen a'r adroddiad sylwadau gan Susan Cousins wedi'u cyhoeddi ar ein gwefan AU Ymlaen: adroddiad cryno hil, mynediad a llwyddiant ac AU Ymlaen: adroddiad sylwadau hil mynediad a llwyddiant.

5. Cytunodd Cyngor CCAUC ar gyfanswm o £500k o ddyraniad yn 2021/22 a £1m yn flynyddol yn 2022/23. 2023/24 a 2024/25 i gefnogi cydraddoldeb hiliol mewn AU, yn amodol ar gyllidebau CCAUC (ac ar y trosglwyddiad i'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil) ac ar ymrwymiadau boddhaol gan y prifysgolion.

## Pwrpas y cyllid ychwanegol ar gyfer cydraddoldeb hiliol

6. Pwrpas y cyllid ychwanegol ar gyfer cydraddoldeb hiliol yw:
   i. gwella cydraddoldeb hiliol a chefnogi newid diwylliant mewn addysg uwch yn unol â'n datblygiadau polisi hil, mynediad a llwyddiant, a chynllun Gwrth-hiliaeth Cymru gan Lywodraeth Cymru;
   ii. sicrhau bod prifysgolion yn parhau i gyflawni eu dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector

Cyhoeddus (Cymru) 2011[1], fel y bont yn berthnasol i hil a nodweddion gwarchodedig eraill, gan gynnwys rhoi ystyriaeth i groestoriadedd, a gweithredu'n 'unol ag ysbryd y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol[2];

iii. gwella'r trefniadau i gasglu a dadansoddi data a gwybodaeth a chryfhau sylfaen dystiolaeth prifysgolion ar gyfer cydraddoldeb hiliol ym mhob polisi, a phob tro wrth gynllunio a gweithredu ar gyfer staff a myfyrwyr;

iv. galluogi ymagweddau prifysgol gyfan, gan gynnwys ymgeiswyr, staff, myfyrwyr a'r rhai sy'n ymwneud â'r brifysgol;

v. mynd i'r afael â materion trais ar sail hunaniaeth, cam-drin a cham-drin rhywiol, aflonyddu a throseddau casineb fel y bont yn berthnasol i hil a nodweddion gwarchodedig sy'n croestorri â hil, fel crefydd a chred;

vi. galluogi cynnydd cyflymach tuag at siarter cydraddoldeb hiliol, gan adeiladu ar waith cychwynnol a wnaed drwy raglen wella Ymlaen AU ar gyfer hil, mynediad a llwyddiant.

vii. sicrhau bod prifysgolion yn ymateb yn effeithiol i argymhellion yn adroddiadau'r DU gan gynnwys adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Mynd i'r afael ag aflonyddu hiliol: prifysgolion yn cael eu herio a Mynd i'r afael ag aflonyddu hiliol mewn addysg uwch;

viii. helpu prifysgolion i gymryd rhan mewn digwyddiadau rhwydweithio a gefnogir gan CCAUC a rhannu arfer;

ix. galluogi prifysgolion i ddarparu gwybodaeth a ffurflenni monitro i CCAUC er mwyn rhoi cyfrif am gyllid cydraddoldeb hiliol a'r hyn y gellir ei gyflawni.

7. Bydd y cyllid hwn yn cyfrannu at gefnogaeth prifysgolion tuag at nodau a ffyrdd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Rydym yn darparu cyllid hirdymor i atal anghydraddoldeb a chefnogi newid diwylliant. Bydd y cyllid hwn yn galluogi prifysgolion i integreiddio ystyriaethau cydraddoldeb hiliol ym mhopeth a wnânt. Mae'r cyllid yn cyd-fynd â'n blaenoriaethau o ran polisi a chyllid, gan gynnwys y canlynol ymhlith eraill: cefnogi iechyd a llesiant y staff a'r myfyrwyr, gan gynnwys iechyd meddwl; profiad myfyrwyr; dysgu ac addysgu; addysg uwch ddiogel a chynhwysol; trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol; y Rhaglen Ymgyrraedd yn Ehangach; cynlluniau mynediad a ffioedd, prentisiaethau lefel uwch; a Rhaglen GO Wales: Cyflawni drwy Brofiad Gwaith. Bydd y cyllid hwn yn galluogi ymglymiad pellach staff, myfyrwyr a phartïon eraill sydd â buddiant a phrofiadau byw, yn ogystal â gwaith ar y cyd ag ysgolion, colegau a phartneriaid eraill.

[1] Cael gwared ag achosion anghyfreithlon o wahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth, ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir yn sgil y Ddeddf; hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phobl heb y nodwedd honno; a meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phobl heb y nodwedd honno;

[2] Disgwyliad dyletswydd economaidd-gymdeithasol Llywodraeth Cymru i weithredu yn ysbryd y ddyletswydd. Y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol: Trosolwg

## Methodoleg cyllid ac amodau cyllid

8. Rydym yn cynnig bod dyraniadau prifysgolion yn 2021/22:
   i. yn cynnwys terfyn isaf o £50k ar gyfer cyllid yn 2021/22 i gynnig lefel resymol o adnoddau ychwanegol yn y cyfnod cyllido cychwynnol (Ebrill i Orffennaf 2022);
   ii. yn defnyddio data myfyrwyr HESA 2020/21 sy'n seiliedig ar boblogaeth gofrestru safonol HESA, gan ostwng i nifer yr unigolion hy, os yw myfyriwr wedi cofrestru ar fwy nag un cwrs ni ddylid ond ei gyfrif unwaith;
   iii. yn defnyddio data myfyrwyr sy'n cynnwys yr holl gorff o fyfyrwyr: pob modd, lefel, domisil;
   iv. yn seiliedig ar ddata wedi'u dilysu gan HESA;
   v. yn ôl yr arfer, mae data myfyrwyr y Coleg Brenhinol Cerdd a Drama wedi'u cynnwys yn nata a dyraniad Prifysgol De Cymru.

9. Dyma'r amodau cyllido:
   i. cynigir dyraniad CCAUC yn 2021/22 ar yr amod y bydd prifysgolion yn ymrwymo i sicrhau arian cyfatebol ar gyfer dyraniadau yn 2022/23, 2023/24 a 2024/25. Ni ddisgwylir arian cyfatebol yn 2021/22.
   ii. cynigir dyraniadau yn 2021/22 ar yr amod bod pob sefydliad yn aelod o siarter cydraddoldeb hiliol erbyn diwedd mis Mawrth 2022.
   iii. mewn blynyddoedd dilynol bydd y cyllid yn cael ei gynnig ar yr amod bod prifysgolion yn dangos eu bod yn cymryd pob cam rhesymol i ennill nod siarter erbyn 2024/25.
   iv. rydym yn cadw'r hawl i gadw cyllid yn ôl, neu i adfachu cyllid na chaiff ei wario'n llawn, na chaiff ei wario yn ystod y flwyddyn ddyrannu, os na fodlonwyd amodau eraill yn gysylltiedig â'r cyllid, os na roddwyd adroddiadau llawn a boddhaol, neu lle na chafodd cyllid ei ddefnyddio i'r dibenion a fwriedir.

10. Gan ystyried yr wybodaeth a ddarperir yn y cylchlythyr hwn, dyma fyddai dyraniadau'r sefydliadau yn 2021/22, yn ddarostyngedig i amodau cyllido, datganiadau ac adroddiadau a gyflwynir inni:

| **Sefydliad** | **£** |
|---|---:|
| Prifysgol De Cymru | 59,137 |
| Prifysgol Aberystwyth | 50,000 |
| Prifysgol Bangor | 50,000 |
| Prifysgol Caerdydd | 85,621 |
| Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant | 50,000 |
| Prifysgol Abertawe | 55,242 |
| Prifysgol Metropolitan Caerdydd | 50,000 |
| Prifysgol Glyndŵr Wrecsam | 50,000 |
| Y Brifysgol Agored yng Nghymru | 50,000 |
| **Cyfanswm** | **500,000** |

11. Yn amodol ar ymatebion i’r ymgynghoriad ac ar yr amod y bydd prifysgolion yn cadarnhau eu bod yn bodloni'r amodau cyllido, rydym yn rhagweld y byddwn yn dyrannu'r cyllid yn hwyr ym mis Ebrill 2022.

12. Byddwn yn nodi'r hyn sydd i'w gyflawni a'r gofynion monitro ar gyfer y cyllid hwn yn ein cylchlythyr ar ganlyniadau'r ymgynghoriad.

**Asesu effaith ein polisïau**

13. Rydym wedi cynnal asesiad effaith ar y datblygiadau polisi hil, mynediad a llwyddiant. Wrth ddiweddaru'r asesiad effaith rydym wedi cynnwys asesiad o'r fethodoleg ar gyfer cyllid hil, mynediad a llwyddiant er mwyn helpu i ddiogelu rhag gwahaniaethu a hyrwyddo cydraddoldeb. Buom hefyd yn ystyried effaith y polisïau ar y Gymraeg, a darpariaeth Gymraeg yn sector AU Cymru, a'r effeithiau posibl ar y nodau a geir yn Nedd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan gynnwys ein Hamcanion Llesiant. Cysylltwch ag equality@hefcw.ac.uk am ragor o wybodaeth am asesiadau effaith.

**Cwestiynau'r ymgynghoriad ac ymrwymiadau cyllido**

14. Mae cwestiynau'r ymgynghoriad wedi'u nodi mewn templed yn **Atodiad A**. Dychwelwch y templed i Amanda Phillips.

**Rhagor o wybodaeth / ymatebion i**

15. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Jane Johns (jane.johns@hefcw.ac.uk).

16. Cyflwynwch ymatebion i'r ymgynghoriad drwy e-bost i Amanda Phillips (amanda.phillips@hefcw.ac.uk). Dylid cyflwyno ymatebion inni erbyn **22 Ebrill 2022.** Ni fyddwn yn gallu derbyn ymatebion ar ôl y dyddiad hwn.